Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

# CFfGGC - Gweminar Proses Hawlio 2025-2026

2ail Hydref 2025

# Rhaglen

- Croeso
- 2025-2026 Terfynau amser a chyflwyno hawliadau
- Ffurflen hawlio Grant
- Gwallau ar hawliadau
- Cais i Newid
- Process samplau dilysu
- Cyhoeddusrwydd a Brandio
- C&A

# C&A

Codwch law os ydych yn dymuno gofyn cwestiwn

Teipiwch gwestiynau yn y sgwrs (chat)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
sir ddinbych
denbighshire
CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL
CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL
wrexham
wrecsam

# 2025-26 Terfynau amser a chyflwyniadau hawliadau

- Mae dyddiadau dychwelyd eich hawliadau fel a ganlyn:

| Cyfnod Hawlio | Dyddiad Cyflwyno ar neu cynt. | |
|---|---|---|
| Ebrill – Mehefin 2025 | 01/08/2025 | ✓ |
| Gorffennaf – Medi 2025 | 10/10/2025 | |
| Hydref – Rhagfyr 2025 | 09/01/2026 | |
| Ionawr - Mawrth 2026 | 07/04/2026 | |

- Byddwn yn eich atgoffa o'r dyddiadau yma pan fyddwn yn anfon eich **Dogfennau Hawlio Grant.**

# Terfynau amser a chyflwyniadau hawliadau

- Ar gyfer prosiectau sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2026, efallai y byddwn yn gofyn i chi gyflwyno ffigwr gwariant amcangyfrifedig yn ystod mis Mawrth. Bydd y dyddiad hwn yn cael ei gadarnhau.
- E-bostiwch eich adroddiad cynnydd a'ch ffurflen hawlio at: ffyniantgyffredingogleddcymru@gwynedd.llyw.cymru

# Dogfennau Hawlio

1. Dogfen canllawiau

2. **Rhestr Allbynnau a Chanlyniadau a Rhestr Gofynion Tystiolaeth CFfG Gogledd Cymru 2025-26 v1.1**”

3. Templed Ffurflen hawlio (Excel)

4. Templed Adroddiad Cynnydd (Word)

Defnyddiwch y cod QR i weld y ddogfen Allbynnau a Chanlyniadau

# Ffurflen Hawlio Grant

- Canllawiau - canllawiau byr ar gyfer pob tab unigol
- Crynodeb Atodiad B a Gymeradwywyd
- Datganiad a Hawliad Trafodiad 1 – Wedi cloi
- Datganiad a Hawliad Trafodiad 2
- Allbynnau / canlyniadau
- Cynllun Cyflawni a Cherrig Milltir
- Cynllun Caffael
- Cofrestr Risg
- Tracio Prosiect

# Adroddiad Cynnydd

- Cais i Newid – newidiadau gweinyddol yn unig
- Cyhoeddusrwydd – atodwch linc/dogfennau ar unrhyw gyhoeddusrwydd a gynhaliwyd
- Atodwch adroddiad/datganiad gwerthuso tendr (yn lleihau nifer y sampl dilysu)

# Cais I Newid

- **Newidiadau Gweinyddol:** Gellir nodi newidiadau gweinyddol (nad ydynt yn sylweddol) yn eich adroddiad cynnydd a'u cymeradwyo trwy e-bost.

- **Newidiadau Sylweddol:** Bydd angen cwblhau Ffurflen Gais am Newid a rhaid eu cyflwyno i'ch Tîm SPF Lleol neu Arweinydd Aml Sir.
- Efallai y bydd angen Atodiad B diwygiedig ar gyfer newid sylweddol.

# Cais I Newid

Mae enghreifftiau o **newidiadau sylweddol** yn cynnwys (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Newidiadau ym mherchnogaeth y prosiect
- Newidiadau yn y bartneriaeth sy'n effeithio ar addasrwydd strategol y prosiect
- Gostyngiad o fwy na 20% mewn cyfansymiau allbynnau / canlyniadau
- Gostyngiad mwy na 20% yn grant UKSPF
- Cyllid ychwanegol UKSPF (unrhyw gynnydd canrannol)
- Cynyddu/lleihau Arian Cyfatebol (unrhyw newidiadau canrannol)
- Trosglwyddo fwy nag 20% o fewn penawdau gwariant ac is-themâu (rhif S)
- Trosglwyddo gyllid UKSPF rhwng cyfalaf a refeniw
- Tynnu/ychwanegu is-thema UKSPF (rhif S)
- Dileu allbynnau / canlyniadau

# Problemau cyffredin ar ffurflenni hawlio

- Ddim yn sgrolio i lawr ac ar draws y dudalen i weld y ddogfen gyfan.
- Ddim yn cwblhau'r holl adrannau gorfodol
- Tab datganiad heb ei lofnodi
- Rhifau Cyfeirnod Dogfen dyblyg yn cael eu defnyddio ar y rhestr Trafodion – colofn A.
- Dyddiadau anfoneb/trafodion nad ydynt yn cyfateb i ddyddiadau prosiect neu hawliad
- Fformiwlâu a fewnbynnir yn y colofnau Is-thema, felly creu anghysondeb yn y cyfansymiau.
- Peidio â dyrannu gwariant i bob awdurdod perthnasol ar brosiect Aml-Sir.

# Gwirio Samplau

- Bydd pob cais yn destun gwiriad samplau o'r costau.
- Byddwch yn ei dderbyn AR ÔL i'ch hawliad gael ei brosesu
- Mi fydd sampl yn cael ei ddewis o:
  - **Rhestr Trafodion Gwariant,**
  - **Allbynnau wedi cyrraedd hyd yma,**
  - **Canlyniadau wedi cyrraedd hyd yma,**
  - **Caffael**
  - **Gweithgareddau marchnata**

Os ydych chi'n cynnwys dogfennau caffael a marchnata gyda'ch adroddiad cynnydd hawliad, bydd yn lleihau nifer y samplau gwirio y gofynnwyd amdanynt.

.

# Proses Sampl Dilysu

- Bydd yr e-bost cais samplo yn cynnwys y daenlen "Sampl Dilysu Hawliad Grant" ar gyfer yr hawliad.

- Mae gan y daenlen 3 tab
  - **Canllawiau –** yn darparu canllawiau a chyfarwyddiadau ar y broses samplu.
  - **Samplau Dilysu –** yn rhestru'r eitemau a ddewiswyd i'w samplu.
  - **Ffurflen Gyflwyno** – er mwyn i chi ei chwblhau a'i dychwelyd gyda'ch tystiolaeth.

# Proses Sampl Dilysu

- Rhaid i chi ymateb o fewn **10 diwrnod gwaith** i'r cais.

- **PEIDIWCH** â chyflwyno'ch ymateb nes bod y tab 'Ffurflen Gyflwyno' wedi'i chwblhau'n llawn a bod gennych ffeil PDF ar gyfer pob eitem a restrir yn y sampl.

- Dim ond un cyflwyniad y dylid ei wneud - unwaith y bydd yr holl dystiolaeth yn barod a gellir ei darparu gyda'i gilydd.

# Brandio a Chyhoeddusrwydd

## Pecyn Cymorth Marchnata a Chyhoeddusrwydd

Gallwch nawr gael mynediad at y Pecyn Cymorth Marchnata a Chyhoeddusrwydd ar ein gwefan ranbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru - Brandio

Mae'r pecyn cymorth yn anelu at gefnogi derbynwyr grant CFfGDU i gyfathrebu effaith eu prosiectau yn effeithiol ac i gydymffurfio â gofynion brandio.

Mae adran newydd bellach ar y wefan ranbarthol ar gyfer Straeon Llwyddiant. Er mwyn i straeon neu astudiethau achos gael eu cynnwys yma, mae angen iddynt ddilyn y canllawiau.

Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru - Straeon o Lwyddiant

# Brandio a Chyhoeddusrwydd

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

## Materion Cyffredin yn Codi

- Defnydd o Logos
- Cydnabyddiaeth CFfGDU Datganiadau i'r Wasg / Post's Cyfryngau Cymdeithasol / Gwefannau

**"Mae'r [prosiect hwn/Enw'r prosiect] wedi cael £[RHOWCH Y SWM] gan lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig."**

Mae'n rhaid hefyd defnyddio nodiadau penodedig i olygyddion yn yr holl weithgareddau â'r cyfryngau.

**"Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) yn cefnogi cyflawni pum cenhadaeth genedlaethol llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhagweithiol: gwthio pŵer allan i gymunedau ym mhobman, gyda phwyslais penodol ar helpu i sbarduno twf economaidd a hyrwyddo cyfleoedd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig."**

Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol
County Borough Council
Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council
wrexham
wrecsam

# Yn Fyr

- Cymerwch ychydig o amser i adolygu'r ddogfen canllawiau.
- Cyflwynwch hawliadau erbyn eich dyddiad dyledus.
- Rhowch wybod i ni am unrhyw broblemau neu wallau gydag unrhyw un o'r dogfennau rydych chi'n eu derbyn.
- Nid oes angen tystiolaeth o wariant gyda'ch hawliad a gyflwynwyd, os byddwch yn cynnwys copiau o deunydd marchnata/adroddiad caffael efo’r hawliad, fydd hyn yn llehau’r nifer o sampl dilysu.
- Gall hawliadau fod yn seiliedig ar wariant a dynnwyd (costau rydych wedi dod yn gyfrifol amdanynt a'r anfoneb a dderbyniwyd, ond heb eu talu eto)
- Dyddiad y gweminar nesaf yw gadarnhau cyn dyddiad hawliad chwarter 3, bydd rhagor o wybodaeth ar y wefan

# C&A

Dyma rai o'r cwestiynau a godwyd yn ystod gweminarau hawlio blaenorol.  Mae'r atebion wedi'u darparu a dylid eu defnyddio fel rhan o'r dogfennau Canllawiau Hawlio.

C- A fydd ffurflen hawlio newydd yn cael ei anfon atom ar gyfer pob cyfnod hawlio neu a oes angen i ni ddiweddaru'r teitl os yw'n cyfeirio at gyfnod hawlio 1, 2,3 ac ati
A- Dim ond un ffurflen hawlio y byddwch chi'n ei defnyddio ar gyfer hyd eich prosiect. Bydd hawliad wedi'i brosesu yn cael ei ddychwelyd atoch gyda gwybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol wedi’i gloi a thabiau a cholofnau ychwanegol i chi gwblhau eich cyfnod hawlio nesaf.

C- A fydd enw'r ddogfen yn aros yr un fath trwy gydol y flwyddyn?
A- Ni fydd angen i chi ddiweddaru teitl y ddogfen. Bydd pob cyfnod hawlio newydd yn cael ei gynnwys ar dabiau unigol i'w nodi.

C- A fyddwn ni'n cael y ffurflen hawlio yn syth yn ôl fel y gallwn ei chwblhau bob mis yn hytrach na gadael tan ddiwedd y cyfnod
A- Bydd hawliadau yn cael eu prosesu ar sail y cyntaf i'r felin, a'u dychwelyd atoch gyda’r e-bost sy'n nodi bod y taliad wedi'i ryddhau.

C- Beth fyddai prosiect yn ei wneud pe bai ganddynt gostau annisgwyl y mae angen iddynt hawlio amdanynt ac nad oes ganddynt bennawd cost ar ei gyfer?
A- Yn y lle cyntaf, trafodwch gyda'ch Tîm SPF Lleol/Arweinydd Aml-Sir gan y bydd angen cyflwyno cais am newid gydag Atodiad B diwygiedig.

C- Os oes angen rhesi gwariant ychwanegol a allwn ni ychwanegu rhai a bydd y fformiwlâu yn llusgo i lawr yn awtomatig
A-Gall derbynwyr grant ychwanegu mwy o resi os oes angen a bydd y fformiwlâu yn llusgo i lawr yn awtomatig i'r blychau llwyd a'r celloedd dilysu trwy pwyso 'tab' ar y rhes / cell isaf

C- Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i brosesu'r hawliad a'r taliad i gael ei gadarnhau?
A- Bydd hawliadau yn cael eu prosesu ar sail y cyntaf i'r felin, a'u dychwelyd atoch gyda'r e-bost sy'n nodi bod y taliad wedi'i ryddhau.

C- A allwn symud cyllideb rhwng penawdau gwariant hyd at 20% heb gyflwyno cais am newid? Os yw gwahanol benawdau o dan un is-thema, e.e. costau staff, marchnata, ni fyddai hyn yn gofyn am gais am newid?
A- Mae angen cyflwyno cais am newid i'ch Tîm SPF Lleol / Arweinydd Aml-Sir ar gyfer unrhyw symudiad dros 20% rhwng llinellau cyllideb.

C- Sut ydyn ni'n gwneud cais am flaendal?

A- Mae rhagor o wybodaeth am flaendaliadau ar gael yn y Ddogfen Ganllawiau, ond yn y lle cyntaf dylech gysylltu â'ch Tîm SPF Lleol / Arweinydd Aml-Sir.

C- Pryd fyddwn ni'n derbyn y templed hawliad?

A- Byddwn yn dechrau anfon y templedi hawlio yn dilyn gweminar heddiw (26/06/2025).

C- Allwch chi gadarnhau y gallwn hawlio allbynnau a chanlyniadau ar hawliad diweddarach os derbynnir tystiolaeth yn hwyrach na'r cyflawniad?

A- Gofynnwn i chi beidio ag adrodd ar unrhyw allbynnau / canlyniadau oni bai bod gennych y dystiolaeth wrth law i gefnogi'r nifer a gyflawnwyd

C- A oes angen i ni gyflwyno cais am newid os ydym yn mynd 20% drosodd ar dargedau allbynnau a chanlyniadau?

A- Na, nid oes angen cais am newid am or gyflawni allbwn/canlyniadau, ond gallwch gynnwys y cyflawniadau ychwanegol yn eich hawliad.

C- Os yw'r buddiolwr yn derbyn cymorth sy'n wahanol i'r hyn a dderbyniwyd o'r blaen, a ellir hawlio'r run allbynnau / canlyniadau am y cyfnod hwn?
A- Gellir cefnogi buddiolwyr (pobl, busnesau, adeiladau neu ardaloedd o dir) a gefnogir yn 2022-25 eto yn 2025-26. Ni ddylid eu hadrodd eto gan ddefnyddio'r un allbwn neu ganlyniad oni bai bod y cymorth a dderbynnir yn sylweddol wahanol i'r cymorth a ddarperir yn 2022-25.

C- A fydd gweminar yn mynd dros allbwn a thystiolaeth canlyniadau?
A- Wedi ei gynnal 16 o Fedi, mae'r sleidiau ar gael ar ein gwefan, unrhyw ymholiadau penodol, cysylltwch a'ch Tim SPF Lleol.

C- Newidiadau i'r dystiolaeth sydd eu hangen, yn enwedig casglu gwybodaeth am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r 9 nodwedd warchodedig, nad ydym wedi bod yn eu gwneud ar hyn o bryd. A oes gennych unrhyw gyngor os ydym yn gweithio gyda buddiolwyr nad ydynt yn dymuno cadarnhau unrhyw un o'r nodweddion?
A- Roedd angen y wybodaeth hon yn ystod y rhaglen 22-25. Fel arfer, mae gan ffurflenni buddiolwyr bob un o'r 9 Nodwedd wedi'u rhestru iddynt dicio, ynghyd â blwch ticio 'Mae'n well gennych beidio â dweud'. Rhaid i chi sicrhau bod cyfle i ddarparu'r wybodaeth.

C-Beth yw'r dyddiad cau i gyflwyno'r adroddiad gwerthuso terfynol?
A- Mae angen cyflwyno adroddiad drafft y gwerthuso erbyn **7fed o Ebrill, 2026** a cyflwyno'r adroddiad terfynol erbyn **1af o Fai, 2026** y fan bellaf. Os nad yw'r ddogfen ar gael yn Gymraeg a Saesneg, dylai o leiaf gynnwys crynodeb dwyieithog. Sicrhewch fod costau'r adroddiad wedi'u cynnwys yn yr hawliad terfynol, gan na fydd unrhyw gostau a

- C- A allwn hawlio gwariant os nad oes gennym dystiolaeth amdano?
- A- Gallwch hawlio am wariant (costau y mae sefydliad yn eu hwynebu pan fydd yn prynu nwyddau neu wasanaethau, ond heb eu talu eto). Bydd angen i chi sicrhau bod gennych y dystiolaeth ar gael ar gyfer y sampl dilysu. Os dim ar gael, gallwch gynnwys costau a ysgwyddwyd y tu allan i'r cyfnod hawlio presennol y tro nesaf, ond bydd angen naratif arnom i'w esbonio.

C – A oes unrhyw gymorth ar gael os oes angen cefnogaeth arnom i gwblhau'r ffurflen hawlio?
A – Oes, mae gan bob prosiect Swyddog Prosiect penodedig sydd yno i'ch cefnogi drwy gydol y prosiect.

- C – A oes angen i mi gyflwyno ffurflen hawlio hyd yn oed os nad oes gennym unrhyw wariant i'w hawlio?
  A – Oes, mae angen i chi gwblhau'r tabiau Allbynnau, Canlyniadau, Cynllun Cyflawni a Cherrig Milltir, Caffael a'r Cofrestr Risg, hyd yn oed os nad oes gennych wariant i'w hawlio ai peidio. Mae hefyd angen i chi gwblhau a chyflwyno'r adroddiad cynnydd.
- C- Os yw'r holl ffeiliau PDF y gofynnwyd amdanynt yn fwy na'n terfyn maint ffeil e-bost ar gyfer cyfanswm atodiadau, byddem fel arfer yn cywasgu'r rhain i un ffolder ZIP, a yw hyn, iawn?
- A – Ydi, gallwn dderbyn ffeiliau zip.
- C- Mae rhan o fy mhrosiect yn cynnwys cyhoeddi grantiau, mae un derbynnydd yn elusen ac ni all adennill TAW, a yw hyn yn gymwys ar gyfer SPF ac ydw i'n ychwanegu at y golofn TAW na ellir ei adfer?
- A- Oes, os nad ydynt yn gallu adennill TAW, mae'n gymwys ar gyfer SPF ac mae angen ei gynnwys yn y golofn TAW anadferadwy.

- C- Beth os yw rhan o anfoneb yn cael ei thalu drwy SPF- a oes angen cynnwys y swm llawn yn yr hawliad, neu dim ond y swm sy’n cael ei ariannu drwy SPF?

- A-  Dim ond y swm o’r anfoneb sy’n cael ei ariannu drwy SPF ddylai gael ei gynnwys yn yr hawliad.
  Dylid nodi’r gwahaniaeth rhwng cyfanswm yr anfoneb a’r swm sy’n cael ei hawlio yn y nodiadau yng ngholofn O.
  Os yw TAW yn berthnasol, bydd angen cyfrifo gwerth y TAW sy’n gysylltiedig â’r swm sy’n cael ei dalu drwy SPF yn unig.

- C- Os nad oes ganddom rif cyfeirnod anfoneb unigryw a ddylai cynnwys yr anfoneb yma yn yr hawliad?

- A- Does dim angen i’r rhif cyfeirniod unigryw fod yn rif anfoneb.  Cewch ddefnyddio unryw rhif cyfeirnod, dim ond ei fod yn unigryw ar gyfer pob llinell trafodyn.